**(HCC 1040)**

**Cofnodion o gyfarfod hybrid Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10am yng Nghampws Arloesi a Menter Aberystwyth a thrwy Microsoft Teams ddydd Mercher 3 Tachwedd 2021**

| | |
|---|---|
| **Presennol (yn y cnawd):** | Cath Smith (Cadeirydd)<br>John T Davies<br>Jack Evershed |
| **Presennol (rhithiol):** | Melody Chapman, Gareth Wynn Davies, Rhys Davies, Rachael Madeley Davies, Prys Morgan, Emlyn Roberts a Claire Williams |
| **Trwy Wahoddiad (rhithiol):** | Maria Richards (Llywodraeth Cymru) |
| **Gweithrediaeth (yn y cnawd):** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Hughes (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitemau 7, 8, 9)<br>Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

1. **<u>Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i ddegfed cyfarfod ffurfiol y Bwrdd oddi ar y pandemig Coronafeirws (Covid-19). Cynhaliwyd y cyfarfod hwn mewn fformat hybrid gyda phresenoldeb fel y nodir uchod.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd a fynychwyd ganddi:

15 Medi 2021 – Roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol yn rhithwir yng nghyfarfod Diweddaru Llywodraethiant chwarterol HCC / Llywodraeth Cymru.

17 – 19 Medi 2021 – Ymwelodd y Cadeirydd â Gŵyl Fwyd y Fenni lle'r oedd trelar newydd HCC yn bresennol. Hwn oedd y digwyddiad wyneb yn wyneb cyntaf i HCC ers dechrau'r pandemig.

28 Medi 2021 - Mynychodd y Cadeirydd ddigwyddiad HCC ar gyfer lansiad yr adnoddau addysgol ac iechyd newydd a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llantarnam, Cwmbrân.

5 Hydref 2021 - cyfarfod rhithwir Pwyllgor Cynghori Marchnata HCC (gweler eitem 11b ar yr agenda).

7 Hydref 2021 – Diweddariad Bwrdd HCC (Teams) cyn presenoldeb rhithwir mewn cyfarfod o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio.

13 Hydref 2021 – Presenoldeb rhithwyr gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod o'r Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus.

14 Hydref 2021 – Ymunodd y Cadeirydd â chynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru, NFUCymru, CFfI Cymru a'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) ar Faes Sioe Frenhinol Cymru ar gyfer cyfarfod i amlygu pwysigrwydd cydweithio i gyrraedd nodau'r diwydiant o ran Newid yn yr Hinsawdd.

25 Hydref 2021 – Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyfarfod HCC o ddigwyddiadau'r Fforwm Cig Coch a gynhaliwyd ar Fferm Maes Bach, Ton-teg, Pontypridd (gweler eitem 9a ar yr agenda).

26 Hydref 2021 – Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ginio BlasCymru / TasteWales ac yna buont yn y prif ddigwyddiad bwyd a diod a gynhaliwyd yn yr ICC, Casnewydd ar 27 Hydref 2021.

Roedd gan y Cadeirydd bresenoldeb rhithwir yng nghyfarfodydd parhaus Pwyllgor Tâl HCC mewn perthynas â Chynllun Pensiwn MLC (gweler eitem 16 ar yr agenda).

Parhaodd y cyfarfodydd dal-i-fyny rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau ar gyfer Aelod o'r Bwrdd, Huw Davies.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiannau newydd.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Medi 2021 (HCC 1027)**

Cymerwyd cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Medi 2021 fel y'u darllenwyd, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **I gymeradwyo cofnod Eitem 3 (Ardoll Foch) o gyfarfod ddiweddau Timau'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Hydref 2021 (HCC 1028)**

Ailgymerwyd cofnod eitem 3 ar agenda cyfarfod diweddaru Timau'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Hydref 2021 mewn perthynas â'r Ardoll Moch fel y'i darllenwyd, cafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod y Gweinidog wedi cymeradwyo bod y cyrff Ardoll perthnasol eraill, AHDB a Quality Meat Scotland (QMS) yn cynnal gwyliau Ardoll porc yn ystod mis Tachwedd 2021 yn unig.

Byddai'r Prif Weithredwr yn cadw llygad ar hyn ac yn adrodd i'r Bwrdd yn ôl y galw.

6. **<u>Materion yn codi</u>**

***Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Medi 2021***

*Prinder llafur yn y diwydiant cig coch*

Dywedodd y Prif Weithredwr fod papur ar brinder llafur yn y diwydiant cig coch wedi cael ei baratoi a'i rannu â Llywodraeth Cymru.

Nodwyd bod Llywodraeth y DG wedi cytuno i lacio’r rheolau mewnfudo a chyflwyno cynllun fisa dros dro i helpu i fynd i’r afael â phrinder llafur parhaus yn y sectorau logisteg a bwyd a ddioddefodd yn sylweddol oherwydd Brexit a phandemig Covid-19.

*Adroddiad Perffeithio'r Ffordd Gymreig*

Cafodd adroddiad HCC, "Perffeithio'r Ffordd Gymreig" ei lansio ar-lein gyda’r wasg ar 26 Hydref 2021.

*Adroddiad gwerthuso canol tymor ar gyfer y Rhaglen Datblygu Cig Coch*

Byddai’r uchod yn cael ei rannu gyda’r Bwrdd er gwybodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ar 13 Ionawr 2022.

7. **<u>Cynllun Gweithredol HCC ar gyfer 2021 / 2022</u>**

<u>I ystyried yr adolygiad chwe misol o berfformiad Cynllun Gweithredol HCC 2021 / 2022 yn ôl Dangosyddion Perfformiad Allweddol (HCC 1029)</u>

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

8. **<u>I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a chostau adennill ar gyfer 2022/2023 (HCC 1030)</u>**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

Argymhellodd y Weithrediaeth y canlynol i’r Bwrdd:

**<u>Argymhelliad</u>**

Parhaodd y tarfu ar y farchnad o ganlyniad i ymadawiad y DG â’r UE i greu ansicrwydd i ddiwydiant cig coch Cymru. Gwnaed hyn yn waeth gan yr heriau parhaus a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19.

Ystyriwyd felly ei bod yn briodol, gyda'r heriau presennol sy'n wynebu'r diwydiant, ochr yn ochr â'r ailddosbarthiad Ardoll o tua £1 miliwn y flwyddyn a HCC yn llwyddo i ychwanegu at incwm yr Ardoll gyda chyllid grant; bod y cyfraddau Ardoll cyffredinol yn cael eu cadw ar gyfer 2022 / 2023 fel a ganlyn:

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2022 / 2023** |
|---|

| *(y pen)* | **Cyfanswm Ardoll a Gasglwyd** | **Cyfanswm a Dalwyd gan y Cynhyrchydd** | **Cyfanswm a Dalwyd gan y Lladd-dy/ Allforiwr** |
|---|---|---|---|
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2022 / 2023** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi'i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Bwrdd â'r argymhelliad.

Y camau nesaf: Byddai'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried.

Cytunwyd hefyd efallai y byddai'n amserol i ystyried cynnydd yng nghyfraddau'r Ardoll yn y dyfodol agos ac y dylid cynnal yr adolygiad blynyddol o Gyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru yn gynt yn ystod y flwyddyn ariannol. O ystyried hyn, cytunwyd i gynnwys yr eitem hon yng nghynllun gwaith Bwrdd HCC ac fel eitem agenda ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

9. **Cynllun Busnes HCC 2022 / 2025 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023**

a. I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfodydd Fforwm Ffermwyr Cig Coch HCC

Diolchodd y Cadeirydd i'r Bwrdd a'r Weithrediaeth am eu rhan yn y digwyddiadau a gynhaliwyd ar ffermydd a oedd yn cymryd rhan yn y Rhaglen Datblygu Cig Coch, yn Y Trallwng, Treffynnon, Pontypridd a Llanbedr Pont Steffan rhwng 19 a 29 Hydref 2021. Byddai cyfarfod Llanrwst yn cael ei gynnal ar 4 Tachwedd 2021.

Cynlluniwyd y digwyddiadau fel bod modd cael trafodaethau anffurfiol gyda thalwyr yr Ardoll i gael adborth a fyddai'n cynorthwyo HCC i gynllunio ar ran y diwydiant.

Roedd nifer dda wedi mynychu'r digwyddiadau – rhwng 20 a 40 o randdeiliaid yn bresennol ym mhob cyfarfod.

Teimlai'r Bwrdd a'r Weithrediaeth fod y cyfarfodydd wedi bod yn ddefnyddiol dros ben, a chytunwyd y dylid ystyried digwyddiadau tebyg yn barhaus.

b. Y Grŵp Ymgysylltu â'r Diwydiant

*I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ddydd Iau 21 Hydref 2021 (HCC 1031)*

Cymerwyd y cofnodion fel y'u darllenwyd a chawsant eu defnyddio fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw broblemau'n codi.

Cafodd cofnodion cyfarfod y Grŵp a gynhaliwyd ddydd Iau 21 Hydref eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

c. *Y broses hynllunio ar gyfer Cynllun Busnes HCC 2022 / 2025 a Chynllun Gweithredol HCC 2022 / 2023*

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i gynnal sesiwn gynllunio benodol ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith yn gynnar ym mis Rhagfyr 2021. Byddai'r sesiwn yn gwella ymhellach y gwaith o ddatblygu Cynllun Busnes drafft HCC 2023 / 2025 a Chynllun Gweithredol 2022 / 2023 a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2022.

10. **Adroddiadau HCC**

a. Gweithgareddau (HCC 1032)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan y Weithrediaeth.

b. Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1033)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

c. Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 30 Medi 2021 (HCC 1034)

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd a chafodd y cynnwys ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol, heb unrhyw faterion penodol i'w tanlinellu.

d. I dderbyn diweddariad am Gynhadledd Flynyddol HCC 2021

Roedd cynllunio ar gyfer cynhadledd hybrid gyntaf HCC ar y gweill.

Roedd trefniadau ar y gweill i gydymffurfio â rheoliadau Covid-19 ar gyfer agwedd ffisegol y gynhadledd.

Câi briffiad llawn ei baratoi ar gyfer y Bwrdd cyn y gynhadledd.

e. I dderbyn diweddariad am bresenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf – Dydd Llun 29 – Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021

Bu'r Rheolwr Cyfathrebu yn crynhoi presenoldeb HCC yn y Ffair Aeaf eleni.

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer brecwast HCC i'r diwydiant a fyddai'n cael ei gynnal am 8am ddydd Llun 29 Tachwedd 2021 yn Hafod a Hendre

gyda'r Gweinidog Materion Gwledig yn bresennol. Oherwydd rheoliadau Covid-19 byddai'n rhaid cyfyngu'r nifer eleni i drigain.

Oherwydd cyfyngiadau yn sgil y pandemig, roedd y stondin eleni wedi'i dylunio'n wahanol. Ni cheid cegin ac ardal goginio gan na fyddai unrhyw arddangosiadau i ddefnyddwyr.

Byddai'r stondin felly yn rhoi mwy o bwyslais ar adroddiad Perffeithio'r Ffordd Gymreig a phrosiectau parhaus y Rhaglen Datblygu Cig Coch .

f. **Digwyddiadau i ddod (HCC 1035)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

11. **Pwyllgorau HCC**

Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu

a. *I fabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 2 Medi 2021 (HCC 1036)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata

b. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 5 Hydref 2021 (HCC 1037)*

Cymerwyd y cofnodion fel y'u darllenwyd a chawsant eu defnyddio fel adroddiad i'r Bwrdd heb unrhyw broblemau'n codi.

Cafodd y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Hydref 2019 eu mabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Ymchwil a Chynghori a Chyfnewid Gwybodaeth

c. *I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 6 Hydref 2021*

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

d. *I dderbyn a mabwysiadu Strategaeth HCC ar Ymchwil a Datblygu (HCC 1038)*

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)

e. *I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor a gynhaliwyd ddydd Mercher 20 Hydref 2021*

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd Dros Dro y Grŵp, Prys Morgan.

12. **Papur er gwybodaeth: Datganiadau Ariannol EIDCymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2021 (HCC 1039)**

Cymerwyd yr uchod fel y'i darllenwyd .

Cytunwyd i roi diweddariad am y datblygiadau o fewn EIDCymru / Amlrywogaeth Cymru i'r Bwrdd yn y dyfodol.

13. **Unrhyw fater arall**

*Cyfarfodydd Bwrdd HCC*

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb yng nghyfarfod hybrid cyntaf HCC a byddai'n croesawu unrhyw adborth ynghylch y fformat gan y Bwrdd.

14. **Dyddiadau cyfarfodydd i ddod**

Cyfarfod cynllunio – dyddiad i'w gadarnhau
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 13 Ionawr 2022 am 10am
Diweddariad telegynhadledd y Bwrdd – Dydd Iau 3 Chwefror 2022 am 9.30am

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**